



Cronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen)

Gweinyddir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol
Torfaen



Cynllun Pensiwn
Llywodraeth Leol

Ymddeol o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) Taflen Wybodaeth

Cyflwyniad

Mae'r daflen ffeithiau hon yn esbonio'r camau yn y broses ymddeol. Am fanylion mwy manwl, darllenwch ein Canllaw Ymddeol i Aelodau CPLIL ar ein gwefan.

5 Cam i Ymddeol

PROSES YMDDEOLIAD



1

Siaradwch â'ch cyflogwr: Dechreuwch trwy gael sgwrs gyda'ch cyflogwr i gytuno ar eich dyddiad ymddeol a'r math o ymddeoliad rydych chi'n ei gymryd, boed yn ymddeoliad arferol, hyblyg, neu oherwydd salwch ac ati. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod eich proses ymddeol yn llyfn a bydd eich buddion pensiwn yn cael eu talu ar amser.

2

Hysbysiad Cyflogwr: Bydd eich cyflogwr yn anfon hysbysiad ymadael i'r Gronfa Bensiwn, yn cynnwys yr holl wybodaeth am eich tâl, dyddiad ymadael, a'r rheswm dros adael, a hynny ar ôl iddynt dalu popeth sy'n ddyledus i chi. Mae manylion cywir yn hanfodol er mwyn cyfrifo'ch buddion pensiwn yn gywir.

3

Cyfrifo Pensiwn: Rydym yn cyfrifo eich buddion pensiwn gwirioneddol ar sail y wybodaeth a roddir, ac yn cynnwys hyn yn eich pecyn ymddeol. Gwnewch yn siŵr eich bod yn darllen eich ffigurau'n ofalus, a rhowch wybod i ni os ydych chi'n meddwl bod unrhyw beth yn anghywir.

4

Dychwelyd Ffurflenni: Byddwn yn anfon pecyn ymddeol atoch. Rhaid ei lenwi a'i ddychwelyd atom gyda chopïau o unrhyw dystysgrifau rydyn ni wedi gofyn amdanynt. Gwnewch yn siŵr bod yr holl wybodaeth yn gywir er mwyn osgoi unrhyw oedi. Os ydych wedi anfon tystysgrifau o'r blaen, y cyfan sydd angen ei wneud yw cydnabod eich bod yn dal yn briod ac ysgrifennu 'wedi gweld y tystysgrifau'. Hefyd, os ydych wedi llenwi ffurflen enwebu o'r blaen, rydym yn hoffi ail gadarnhau eich dymuniadau pan fyddwch chi'n ymddeol.

5

Trefnu Taliad: Byddwn yn trefnu i dalu eich pensiwn ar y dyddiad talu nesaf, a byddwn yn talu unrhyw gyfandaliad di-dreth ar ôl eich dyddiad ymddeol. Cofiwch ein bod yn cau ein cyflogres ar y 15fed o bob mis, felly os daw eich pecyn ymddeol i law ar ôl y dyddiad hwn, byddwch yn cael y pensiwn y mis canlynol. Rydym yn talu ein pensiynau ar ddiwrnod gwaith olaf y mis. Byddwn yn rhoi gwybod i chi pan fyddwn wedi gwneud hynny.

Pethau Pwysig i'w Hystyried

- **Cais am Amcangyfrif:** Gallwch ofyn am amcangyfrif o'ch buddion CPLIL sy'n daladwy ar ddyddiad penodol drwy lenwi ffurflen yn gofyn am amcangyfrif. Ewch i'n gwefan: <https://cronfabensiwnngwent.co.uk/> neu ewch i'ch Cyfrif Fy Mhensiwn Ar-lein.
- **Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY):** Os ydych chi'n talu i mewn i Gyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol gyda Standard Life, Clerical Medical neu MyMoneyMatters, efallai yr hoffech roi'r gorau iddynt cyn i chi adael eich swydd. Fel arall byddai angen i ni aros am gadarnhad gan y darparwr yn dweud eu bod wedi derbyn eich taliad terfynol. Gallai hyn achosi oedi o ran talu eich pensiwn CPLIL gan na allwn ofyn iddynt ddadfuddsoddi'r cynilion pensiwn yn eich cronfa CGY tan ar ôl i'r taliad diwethaf gael ei dderbyn. I roi amcan i chi, ni allwn hawlio yn eich cronfa (CGY) tan tua'r 9fed o'r mis, yn dilyn eich didyniad diwethaf.
- **Penderfyniad Terfynol:** Unwaith y byddwch yn penderfynu a ddylech gyfnewid pensiwn am gyfandaliad, a sut ydych chi am ddefnyddio eich CGY mewnol, mae'r penderfyniadau hyn yn derfynol ac ni ellir eu gwrthdroi yn nes ymlaen. Ystyriwch gael cyngor ariannol annibynnol cyn gwneud y dewisiadau hyn.
- Os oes gennych CGY bydd angen i chi gael arweiniad gan Pension Wise.
- **Cynilion Pensiwn:** Dywedwch wrth y Gronfa Bensiwn am unrhyw fuddion pensiwn eraill y gallwch eu hawlio, neu rheini yr ydych eisoes yn eu hawlio. Mae hyn yn sicrhau asesiad cywir yn erbyn terfyn eich Lwfans Cyfandaliad. Sylwch nad yw hyn yn cynnwys pensiwn y wladwriaeth.
- **Cyfandaliad:** Mae eich cyfandaliad yn cael ei dalu'n uniongyrchol i'r cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu o'ch dewis o fewn 15 diwrnod gwaith ar ôl cymeradwyo'ch pecyn ymddeol. Gallwch ddewis bod eich cyfandaliad a'ch pensiwn yn cael eu talu i mewn i gyfrifon ar wahân.

Ar ôl ymddeol - gwybodaeth

- **Taliad Pensiwn:** Bydd eich pensiwn blynyddol yn cael ei dalu mewn 12 taliad cyfartal bob mis ar ddiwrnod gwaith olaf y mis. Bydd yn cael ei dalu'n syth i gyfrif Banc neu Gymdeithas Adeiladu o'ch dewis.
- **Byw Dramor:** Os byddwch yn symud dramor, gallwn barhau i dalu'ch pensiwn i mewn i'ch cyfrif banc cyfredol, oni bai eich bod am iddo gael ei dalu i gyfrif tramor. Dylech roi gwybod i'r Gronfa Bensiwn os oes unrhyw newidiadau.
- **Newid Manylion:** Dywedwch wrth y Gronfa Bensiwn ar unwaith os oes unrhyw newidiadau i'ch cyfeiriad neu fanylion eich cyfrif banc. Rhannwch unrhyw wybodaeth sydd angen ei diweddarau cyn canol y mis y daw'r newid hwnnw i rym.
- **Treth Incwm:** Mae eich pensiwn CPLIL yn incwm trethadwy, ond ni chodir treth ar eich cyfandaliad.
- **Ailbrisió Pensiwn:** Mae eich pensiwn blynyddol yn cael ei ailbrisió bob mis Ebrill yn unol â mesur chwyddiant swyddogol y Llywodraeth, y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI). Mae hyn yn sicrhau ei fod yn cael ei amddiffyn rhag chwyddiant ac yn cadw ei bŵer gwario.
- **Mynd Ar-lein:** Os nad ydych wedi gwneud hynny eisoes, cofrestrwch i ddefnyddio Fy Mhensiwn Ar-lein mewn ychydig o gamau syml i weld eich slipiau cyflog misol, P60, eu lawr lwytho, a diweddarau eich manylion yn ddiogel.
<https://gwentpensionfund.pensiondetails.co.uk/login>
(Mae'r wefan Gymraeg ar gael drwy glicio'r botwm 'Cymraeg' yn gornel dde-uchaf y dudalen.)

Gwybodaeth Ychwanegol

- **Ailgylchu:** Os ydych chi'n defnyddio'ch cyfandaliad di-dreth i gynyddu'r cyfraniadau rydych chi'n eu talu i gynllun pensiwn, a hynny'n sylweddol, gelwir hyn yn 'ailgylchu'. Dim ond os bodlonir yr holl amodau perthnasol y bydd CThEM yn ystyried eich bod ailgylchu. Os yw CThEM o'r farn eich bod yn ailgylchu, bydd yn rhaid i chi dalu treth ychwanegol.
- **Cynyddu eich Pensiwn:** Gallwch dalu cyfraniadau ychwanegol i gynyddu eich pensiwn drwy Gyfraniadau Pensiwn Ychwanegol (CPA) a Chyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY) yn fewnol. Ewch i dudalen 'cynyddu'ch pensiwn' am fwy o fanylion <https://cronfabensiwnngwent.co.uk/eich-pensiwn/paying-in/increase-your-pension/>
- **Rheolaethau Treth:** Un o fanteision cynilo pensiwn gyda CPLIL yw eich bod yn derbyn rhyddhad treth ar eich cyfraniadau. Mae CThEM yn gosod terfyn ar faint o ryddhad treth pensiwn y gallwch ei gael. Mae'r lwfans blynyddol wedi'i osod ar £60,000 (2024/25).
- **Ymddeoliad Cynnar Oherwydd Salwch:** I fod yn gymwys i gael pensiwn wrth ymddeol yn gynnar oherwydd salwch, rhaid eich bod yn methu cyflawni dyletswyddau eich cyflogaeth bresennol yn effeithlon bellach, a hynny'n barhaol, a mae'r tebygolrwydd o ymgymryd ag unrhyw gyflogaeth cyn eich LPB yn llai o lawer.

- **Ymddeol Oherwydd Diswyddiad/Effeithlonrwydd:** Os ydych chi'n 55 oed neu'n hŷn, wedi bod yn aelod o'r Cynllun am o leiaf ddwy flynedd, ac os yw eich cyflogwr yn eich diswyddo neu os ydych yn gorfod ymddeol ar sail effeithlonrwydd busnes, bydd y pensiwn yn cael ei dalu ar unwaith, heb unrhyw ostyngiad, a bydd yn cael ei dalu am oes.
- **Marwolaeth ar ôl ymddeol:** Os byddwch yn marw tra eich bod cael eich pensiwn, bydd grant marwolaeth ar ffurf cyfandaliad yn daladwy os yw'r farwolaeth yn digwydd yn y 10 mlynedd gyntaf o'ch ymddeoliad, os ydych dan 75 oed. Gwnewch yn siŵr eich bod yn llenwi'r ffurflen Mynegi Dymuniad am Grant Marwolaeth yn y pecyn ymddeol.
- **Buddion Goroeswyr:** Ar ôl eich marwolaeth yn bensiwnwr, bydd pensiwn goroeswr yn cael ei dalu i'ch priod, partner sifil cofrestredig, neu bartner cymwys sy'n cyd-fyw gyda chi. Efallai y bydd gan eich plentyn/plant cymwys hawl i bensiwn goroeswr, ar yr amod eu bod o dan 18 oed neu'n dal i fod mewn addysg amser llawn ac o dan 23 oed.

Cymorth ac Ymholiadau

- **Help os oes gennych ymholiad neu gŵyn:** Cysylltwch â'r Gronfa Bensiwn os oes gennych unrhyw amheuan neu gwestiynau am eich pensiwn CPLIL neu os ydych wedi dod ar draws unrhyw broblemau sy'n gysylltiedig â'r CPLIL.

Dolenni Defnyddiol

- **MoneyHelper:** Yn cynnig cyngor ariannol diduedd, am ddim, gan gynnwys gwybodaeth am bensiynau ac ymddeol. <https://www.moneyhelper.org.uk/cy>
- **Sgamiau pensiwn:** Efallai y bydd sgamwyr yn ceisio cael eu dwylo ar eich cynilion pensiwn. Mae'n bwysig sylwi ar yr arwyddion rhybudd a diogelu eich pensiwn. <https://www.fca.org.uk/cy/consumers/diogelu-eich-hun-rhag-sgamiau>
- **HelpwrArian:** Gwasanaeth diduedd, am ddim a gynigir gan y Llywodraeth i gynnis arweiniad ar opsiynau cyfraniadau pensiwn diffiniol. <https://www.moneyhelper.org.uk/cy/pensions-and-retirement/pension-wise>
- **Unbiased:** Gwefan sy'n rhestru cyngorwyr ariannol rheoledig ac annibynnol, broceriaid morgeisi, cyfreithwyr, a chyfrifwyr. www.unbiased.co.uk/ (Gwefan ddim ar gael yn y Gymraeg.)
- **Cyngor ar Bopeth:** Rhwydwaith o elusennau annibynnol sy'n cynnig gwybodaeth a chyngor cyfrinachol am ddim ar wahanol faterion. <https://www.citizensadvice.org.uk/cymraeg/>
- **Age Cymru:** Yn darparu gwybodaeth a chyngor am arian a materion cyfreithiol, iechyd a lles, gofal a chymorth. <https://www.agecymru.cymru/>

Gwybodaeth Gyswllt



01495 766266 (9am - 5pm Dydd Llun – Ddydd Iau a 9am – 4.30pm Dydd Gwener)



pensions@torfaen.gov.uk



Cronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen), Y Ganolfan Ddinesig, Pont-y-pŵl, NP4 6YB



<https://cronfabensiwnngwent.co.uk/>

Ymwadiad

Pwrpas y canllaw hwn yw cynorthwyo aelodau i gynllunio'u hymddeoliad. Canllaw cyffredinol ydyw, ac ni all gynnwys yr holl amgylchiadau personol. Nid yw'r canllaw yn rhoi unrhyw hawliau cytundebol neu statudol. Fe'i darperir at ddibenion gwybodaeth yn unig. Yn achos unrhyw anghydfod yn ymwneud â'ch buddion pensiwn, y ddeddfwriaeth briodol fydd yn cael blaenoriaeth. Roedd y ddogfen hon yn gywir ar y dyddiad y cafodd ei hysgrifennu. Gall ffactorau a gwybodaeth newid; ewch i'r gwefannau perthnasol a bod angen.